


Y Parc Ceirw i Hostel Ieuentid Marloes

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.4 milltir (5.5 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Marloes 316,
*Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)


CYMERIAD: Dwy gamfa ar lwybr, yn hawdd i gymedrol, un llethr serth, un ffrwd fwdlyd gul i groesi, 1.0 milltir (1.7 km) isffordd cerdded

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffrwd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chŵn bob amser
- Gadwch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw

ALLWEDD

- Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir
- Llwyr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol
- - - - Hawl Tramwy Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- ☎ Ffôn Cyhoeddus
- 🚌 Arhosfan bysiau
- G Giât
- S Sticil



Y Parc Ceirw i Hostel Ieuentid Marloes

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

Parcio: Meysydd Parcio yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (tâl tymhorol); Traethau Marloes - maes parcio'r traeth (SM779081); maes parcio Martin's Haven (SM762089)

Hyd: Mae yna sawl llwybr posib, fel a ddangosir ar y map, ac mae pob un yn wahanol o ran hyd.

Y gylchdaith - 3.4 milltir (5.5 km);

Y Parc Ceirw i faes parcio'r traeth - 1.8 milltir (3 km) bob ffordd;

Y Parc Ceirw at y sticil cyntaf - 1.2 milltir (2.0 km) bob ffordd

Gradd: Gwastad i gymedrol, gydag un man yn benodol sydd â llethrau serth gyda nant fach ar y gwaelod. Mae hon yn safle archeolegol ac, felly, nid ydyw wedi'i gwella. Fe allai fod yn anodd ei chroesi.

Arwyneb: Glaswellt a llwch - gall fod yn fwdlyd mewn manau pan yn wlyb.

Toiledau: Martin's Haven, i lawr llethr/grisiau (SM761091)

Ffôn: Martin's Haven (SM761091); Maes parcio Traethau Marloes - argyfwng yn unig.

Dechreuwch o faes parcio Martin's Haven. Trowch i'r chwith trwy'r giât wiced ar waelod y maes parcio a dilynwch ymyl y clawdd i ailymuno â Llwybr yr Arfordir ar ôl ail giât. O'r fan hon, i Rhathlan Watery Bay, naill ai dilynwch ymyl gwastad y cae (graddiannau yn llai na 1 mewn 25) neu'r llwybr mwy garw ar hyd rhan wreiddiol Llwybr yr Arfordir.

Mae gan y llwybr tuag at y môr well olygfeydd ond mae yna rhai graddiannau hefyd. O'r fan hon, edrychwch ar ynysoedd Sgomer, Midland, Sgogwm a Gateholm.

Mae'r graddiannau yn rhai bach hyd nes i chi gyrraedd Rhathlan Watery Bay, Heneb Rhestredig. Mae yna raddiant serth o 1 mewn 6 am 15m i lawr nant fwdlyd a llethr serth i fyny sy'n 1 mewn 4 am 8m. O ganlyniad i ddyndodiad y safle, nid oes unrhyw welliannau wedi eu gwneud i groesi'r nant.

Ar frig y llethr, croeswch dros un sticil a pharhewch ar hyd ymyl y cae i gyrraedd giât wrth ymyl sticil. Croeswch y sticil neu ewch drwy'r giât a pharhewch ar hyd trac llydan sy'n wastad gyda graddiannau gwastad. Edrychwch ar y cynefinoedd corsog gyda'u hamrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid. Mewn tywydd gwlyb, mae'r trac weithiau'n gorlifo am ryw 50m.

Ewch ymlaen heibio i Hostel Ieuentid Traeth Marloes a throwch i'r chwith fel eich bod chi ar yr heol, gan gerdded i lawr yr allt i ddod nôl at faes parcio Martin's Haven. **Ar adegau prysur, fe all yr heol hon fod yn brysur iawn.**

